YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 8. AWST, 1925. PRIS, 3c.

.. CYNHWYSIAD. . .

COLUMBUS.
ODDIAR Y TWR.
YR UNDODIAID.
EIN DYLEDSWYDD AT Y GYMRAEG.
Y GYMANFA GERDDOROL
CYFARFODYDD BLYNYDDOL.
GEIRIADUR BEIBLAIDD.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR • YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur • Beiblaidd

Y GWAITH PWYSICAF AR Y BEIBL
A GYHOEDDWYD YN GYMRAEG. . .

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.

— Pris 1/6 y Rhifyn. —

PW GAEL O—
Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty

Gan ROLAND THOMAS, M.A.,
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-.

Drwy'r post 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1925. [CYF. XXV. RHIF 8.

COLUMBUS—TUA'R GORLLEWIN.

O'i ol y glas Azores aeth
  A hen bileri Ercwlff ban,
O'i flaen ni welai rith o draeth,
  O'i flaen nid oedd ond môr di-lan.
"Myn nefoedd," medd y llongwr, "awn
  Yngholl, mae'r ser dan ddudew haen ;
O Lywydd, dwed, pa beth a wnawn ?"
  Ei ateb oedd : "Ymlaen, ymlaen !"

'Rol morio 'mlaen wrth fympwy'r gwynt,
  Y llongwr ddwed, yn wael ei lun :
"Pe trengai'r morwyr ar eu hynt
  Nis gwybuasai Duw ei hun.
Cyniwair yr awelon coll
  Dros fôr anhysbys, gwyllt ei raen ;
O Lywydd dewr, dwed wrthym oll——"
  Ond tyr ei lais : "Ymlaen, ymlaen !"

Ymlaen yr ant, a'r llongwr ddwed,
  "Ha, malu ewyn mae y don ;
Mae anferth safn y mor ar led,
  Mae llid a brâd yn chwyddo'i fron ;
O Lywydd, dywed ond y gair,
  Yn awr anobaith, dwed yn blaen" :
Ond tery'r llais fel cleddyf claer,
  "Ymlaen, ymlaen, ymlaen, ymlaen !"

A'r Llywydd, er yn flin a gwan,
  Dremia i'r caddug yn ddi-fraw :
Dywyllaf nos ! ond yn y man
  Gwel oleu draw, gwel oleu draw !
Daw'r goleu'n nes : ymled o hyd ;
  Y faner gyda'r wawr ymlaen ;
Mae'n ennill byd, a dysg i'w fyd
  Ei bennaf wers : "Ymlaen, ymlaen !" SARNICOL.

ODDIAR Y TWR.

DYN: o ba le y daeth? Ai o delpyn o bridd, yn ol Genesis? ynte, wedi datblygu y mae o ffurfiau îs o fodolaeth, yn ol gwyddor? Dyna'r math ar gwestiynau a gynhyrfa gyfandir cyfan—cyfandir yr Amerig—yn y dyddiau hyn; yn gymaint felly, fel y mae poblogaeth grefyddol y cyfandir wedi ymrannu'n ddwyblaid fawr, elyniaethus i'w gilydd, o'u plegid, gan gyhoeddi rhyfel y naill yn erbyn y llall. Gwir yw nad rhyfel â pherigl i fywyd yn ei fynwes yw'r rhyfel—eto, o leiaf. Dywedaf—eto, am y rheswm bod y sefyllfa'n rhyfeddol o agos i hyn; y mae'r sefyllfa agosed i berigl i fywyd a hyn—bod un dyn eisioes tan erlyniaeth gyfreithiol mewn canlyniad i'r rhan a gymrodd yn y ddadl.

. . .

Hanes diddorol iawn yw'r hanes. Mewn llithiau blaenorol Oddiar y Twr cyfeiriwyd at y ddadl a ffynna rhwng y blaid or-geidwadol a'r blaid gymhedrol-ryddfrydig—yr Hanfodwyr a'r Diweddarwyr, fel y'u gelwir. Myn y cyntaf lynu'n gyndyn wrth yr hen iawnffyddiaeth; a dadleu'r olaf dros symud ymlaen hyd linellau mwy rhyddfrydig, a dwyn syniadau diwinyddol yr Eglwysi i fwy o gytgord â ffrwyth ymchwiliadau gwyddonwyr y canrifoedd diweddaf. Golyga hyn ymwrthodiad â chryn lawer o'r hen syniadau, a derbyniad o syniadau mwy rhesymol a goleuedig.

. . .

Ceir pleidwyr o'r ddwyblaid ymhobun o'r pedwar cant (mwy neu lai) o enwadau a ffynna yn yr Amerig. Tebig bod y nifer uchod—pedwar cant—yn ddisgrifiad annigonol o nifer yr enwadau, oblegid y peth hawddaf yn y byd yw cychwyn enwad yn yr Amerig. O bydd gan ddyn ryw ffiloreg yn y ffurf o syniad hynod yn ei benglog, nid hir y bydd cyn y llwydda i ddarbwyllo rhyw nifer o fobl ei fod wedi derbyn cenadwri oddi uchod; a dyna enwad wedi cychwyn. Gwelais yn un o'r papurau bod tuag wyth o bob deg o aelodau Eglwysig yr Unol Daleithau, a rifa rhwng deugain a hanner can miliwn, yn Hanfodwyr; a dim ond tua dau o bob deg yn Ddiweddarwyr. Ai cywir hyn, ni fedraf ddweyd; tebig nad yw ymhell o fod yn gywir, gan nad yw pleidwyr cynnydd a blaenfynediad yn lluosog un amser—yn awr mwy na chynt. Sylwais fod pleidwyr o'r ddwyblaid ymhobun o'r enwadau; eithr cyfyngedig yw'r Diweddarwyr yn bennaf i'r enwad Cynnulleidfaol (yr Annibynwyr, fel y'u gelwir yng Nghymru); hefyd, fe'u ceir ymhlith y Bedyddwyr—Bedyddiwr yw un o'r enwocaf o honynt—y Parch. H. E. Fosdick, a berodd y fath gynnwrf ychydig fisoedd yn ol.

Un o'r pynciau mewn dadl yw dechreu dyn. Myn yr Hanfodwyr lynu wrth y syniad Beiblaidd—i ddyn gael ei greu o bridd y ddaear ychydig o filoedd (tua chwe mil) o flynyddoedd yn ol; a bod dyn, yn ei ddechreu, yn ymarferol yr un ag ydyw yn awr. Y syniad gwyddonol yw—mai wedi datblygu o ffurfiau îs o fodolaeth y mae dyn; a bod y datblygiad yn oruchwyliaeth a estyn yn ol am oesau na ellir dyweyd eu nifer—am filiynau o flynyddoedd. Dadleu'r Diweddarwyr dros dderbyn y dybiaeth hon, a thros esbonio pethau crefydd yn ei goleu. Dywed yr Hanfodwyr, ar y tu arall, os y caniateir hyn, y syrth holl gastell iawnffyddiaeth yn chwilfriw i'r llawr.

. . .

Dyma hanes y praw y cyfeiriwyd ato uchod, Yn gynnar yn y flwyddyn bresennol dug un o Seneddwyr Talaith Tenessee fesur i mewn i Senedd ei Dalaith a elwid yn Fesur Gwrth-Ddatblygiad. Amcan y mesur oedd gwneud dysgu'r syniad o ddatblygiad yn ei berthynas â dyn yn ysgolion y Dalaith yn anghyfreithlon. Pasiodd y mesur gyda mwyafrif mawr, a daeth yn gyfraith. Gynted ag y daeth y mesur yn gyfraith, gwelodd yr Hanfodwyr gyfle i ennill buddugoliaeth ar eu gwrthwynebwyr; a chymrwyd athraw ysgol o'r enw Scopes i'r ddalfa am drosedd o'r gyfraith newydd. Y trosedd oedd dysgu'r syniad o ddatblygiad i'w ddosbarth yn yr ysgol. Dechreuodd ei braw ar y ddegfed o Orffennaf.

. . .

Ymddengys bod y ddadl yn achlysur i aml ddigwyddiad difyr i'r eithaf. Dywedir, er enghraifft, i un pregethwr (esgob, yn hytrach) fynd â mwnci gydag ef i'r pulpud un Sul yn ddiweddar; ai er dangos i'r gynnulleidfa y tebygrwydd rhwng y mwnci a dyn, ynte er diarhebu'r syniad o ddatblygiad, ni ddywedir; y cyntaf, yn debygol. Dywedaf y cyntaf yn debygol, am y rheswm i'r gynnulleidfa, ar derfyn y gwasanaeth, basio penderfyniad yn unfrydol i'r perwyl "bod hanes y cread yn Genesis yn un o'r pethau afresymolaf a argraffwyd erioed." Ai presenoldeb y mwnci, ynte pregeth yr esgob, a berodd iddynt basio'r fath ar benderfyniad, ni ddywedir. Pobun o'r ddau, efallai. Wrth groniclo'r digwyddiad, dywed ein cyfoesolyn, y "**Christian Life,**" nad dyma'r tro cyntaf i fwnci fod mewn pulpud. Yr oedd dau yn y pulpud uchod, ta beth. O grefydd, y fath bethau rhyfedd a ffol a wneir yn dy enw glan!

. . .

Ond—pam y dygir y "mwnci" i mewn i'r ddadl? oblegid chwarae'r "mwnci" ran amlwg iawn ynddi. Gelwir y praw uchod yn "braw'r mwnci," a llysenwir y dref lle y cynhelir y praw yn

"Monkeyville"—tre'r mwnci. Tybir yn gyffredin iawn mai dyna beth a olygir wrth Ddarwiniaeth—y dysg Darwiniaeth mai o'r mwnci y datblygodd dyn. Mawr a fu'r difyrrwch a berodd y dybiaeth hon i luaws yn ystod y trigain mlynedd diweddaf. Perodd gryn dipyn o flinder i luaws hefyd; oblegid anodd ydyw i'r natur ddynol ddigymod â'r meddwl mai o'r mwnci y tarddodd dyn. Tybiaeth gamsyniol yw hon, pa fodd bynnag; ni ddywedodd Darwin, ac ni ddywedodd neb arall—un gwyddonwr o fri—ar ol Darwin, mai o'r mwnci y datblygodd dyn. Chwarae teg i'r mwnci. Hyd yn oed pe bai dyn wedi datblygu o'r creadur diniwed a direidus, ni fyddai hynny'n sarhad iddo—sarhad i ddyn, a olygaf, ac nid i'r mwnci. Beth feddyliai'r mwnci am ei berthynasau, mae'n anodd dyweyd.

. . .

Yn yr Amerig y ffynna'r ddadl yn awr. Bu adeg, heb fod ymhell iawn yn ol, pan ffynnai ddadl gyffelyb ym Mhrydain. A mawr a fu'r melldithio ar Darwin a'i gwmni am iddynt feiddio cyhoeddi tybiaeth a ai at wraidd Cristionogaeth iawnffyddol. Gwir iawn oedd hyn—tybiaeth (gwirionedd, yn hytrach) chwyldroadol ydoedd; ac ai at wraidd y syniad iawnffyddol am ddyn. Ond y mae'r ddadl wedi'i phenderfynu'n derfynol, belled ag y mae a fynno'r wlad hon â hi. Y mae'r syniad o ddatblygiad wedi dod i aros. A syniad gogoneddus ydyw.

. . .

Wedi imi ysgrifennu'r nodynnau uchod, daeth y newydd bod y praw y cyfeiriwyd ato wedi dod i derfyn, a'r diffynnydd wedi'i ddyfarnu'n euog. Nid oes amheuaeth gyda golwg ar gyfiawnder y ddedfryd, oblegid yr oedd y cyhuddedig wedi troseddu cyfraith ei dalaith. Nid yw'r dirwy'n fawr—dim ond can doler. Ymhellach na hyn, ni cha'r cyhuddedig yr anrhydedd o wisgo coron y merthyr. Gresyn na chai benyd caletach: dyna'r ffordd effeithiol i daenu gwirioneddau a llwyddo achosion. Gwaed y merthyron yw pris cynnydd a blaenfynediad.

"Ar y banc mewn rhedyn tewon,
Rhwng y defaid a'r da duon,
Syrthiais gyntaf ar fy neulin;
Wedi syrthio, ffaelu erfyn;
Edrych fyny, edrych waered,
Am wel'd Duw, a ffaelu'i weled;
Codi fyny mewn cyfyngder
Heb ddilwytho gair o'm blinder;
Drymach, drymach 'r ai nghaledi;
Mynych ostwng, mynych godi,
Hyd nes mentrais lefain allan,
A gweddio mewn modd egwan.
Ar ol 'chydig bach o droion,
Agorodd Duw fy ngenau a 'nghalon;
Rhoes hyfrydwch imi alw
'N fynych beunydd ar Ei enw."

DAFIS, CASTELLHYWEL.

YR UNDODIAID.

I.

"Undodwr", yn ol rhywun, "yw'r dyn nad yw wedi dywedyd ei air olaf," a diddorol yw canfod tuedd y meddylwyr gorau i osod sedd awdurdod yn y golau mewnol gan bwysleisio profiad yn hytrach nag awdurdod.

Tua diwedd y 17 ganrif a dechrau'r 18fed yr oedd Rhesymoliaeth yn y tir a chynrychiolyd y mudiad gan Bacon, Descartes, Whichcote ac eraill Dysgwyd gan Locke i barchu rheswm ac yng ngrym hwn ymosodwyd ar draddodiad ac ar Galfiniaeth a Thrindodiaeth.

Cafwyd Deddf Goddefiad yn 1689, ond ni oddefid yr Undodwr. Yn 1690 cyhoeddwyd gweithiau'r Dr. Tobias Crisp. Parodd hyn ymddadlau ac ymrannu o'r Ymneilltuwyr. Yn 1691 bu cynnwrf yng Ngwrecsam ar yr un llinellau. "Cariodd rhai gwyr ieuainc o'r Deheudir, y rhai oedd yn ysgol Mr. James Owen yng Ngroesoswallt ar y pryd, hadau y siom hon o ddyffryn Dyfrdwy i ddyffryn Teifi, ac yn neilltuol i Eglwys Henllan, ac wedi hynny i Goleg Caerfyrddin."

Nid oedd ymraniad Sallers Hall ond codwm rhwng Ysbryd Unffurfiaeth ac Ysbryd Rhyddid. Yn 1718 yr oedd cythrwfl yn Ecseter, ac yn 1721 cyhoeddwyd Cyffes Ffydd Bedyddwyr Llundain yn Gymraeg. Deng mlynedd yn ddiweddarach, gosodwyd athrawiaeth y Drindod eto o flaen Llythyr Cymanfa Llanwenarth, ac yn 1733 cyhoeddodd y Parch. Enoch Francis ei lyfr "Gair yn ei bryd."

Hyd amser y diwygiad Methodistaidd yr oedd yr eglwysi ymneulltuol yn gymysg, ac yng ngwres y tan pwysleisiwyd y gwahaniaethau nes peri ymraniad. Maentumir ar sail dydd-lyfr Philip Pugh, meddir, er na wyr neb ond odid amdano bellach, ei fod yn drist o weld eglwysi'i ofal yn gwyro at Arminiaeth rywbryd cyn 1745. Mewn hen lawysgrif ceir "Deg Cyfeiliornad Antinomaidd," wedi'u copio o'r Kilgwyn Church Book, a sylwa'r copiwr a'r Kilgwyn Church Book o'i flaen, mai Antinomaeth ac nid Arminiaeth oedd yn flinder Ysbryd i Philip Pugh. O ddarllen y Deg Cyfeiliornad rhaid amau tystiolaeth y dydd-lyfr nes cael hyd iddo.

Yn wyneb y Deg Cyfeiliornad priodol yw sylw yr athro Thos. Rees, "Dilynwyd yr adfywiadau Methodistaidd yng Nghymru gan y Mudiadau Rhyddfrydig, Arminiaeth ac Undodiaeth nad oeddent yn wir ond dwy agwedd ychydig yn wahanol o'r un peth, sef yr elfen resymol foesol a dynol yn y byd ysbrydol yn codi mewn protest yn erbyn gormes y goruwchnaturiol o'r dueddBantheistaidd mewn uchel Galfiniaeth."

Dyna yw Undodiaeth, y protest hwn.

II.

Yn 1726 pregethodd y Parch. Jenkin Jones yn y Wernhir, a dyma, hwyrach, ddechrau'r Mudiad Arminaidd ar ei ben ei hun, er bod y Broadmead Records yn son am "Another people in the West end of the country who are Baptist in Judgment, and Arminians also for the most part." Yr oedd y Parch. Roger Williams (1667—1730),yntau'n Arminiad, er bod ei gynulleidfa'n gymysg. Cyn marw Jenkin Jones yn 1742 yr oedd chwech neu saith o weinidogion ynghyd a'u cynulleidfaoedd wedi cofleidio'i syniadau, a chadwyd y lamp ynghynn gan David Lloyd, Brynllefrith, Dafis Castellhywel, Gwilym Marles ac eraill.

Codwyd Ail Gapel Caeronnen yn 1747, a sicr bod syniadau'r gynulleidfa wedi cyfnewid cyn hyn, a cheir eglwysi Philip Pugh a Jenkin Jones yn cerdded ochr yn ochr yn eu hymchwil am y gwir.

Gellir olrhain hanes ein heglwysi'n ol at eglwysi'r Piwritaniaid a'r Presbyteriaid wedi hynny, er engh-

raifft, Aberdar, Caeronnen, Ciliai Aeron, Gellionnen, ac Abertawe, neu at Eglwysi'r Bedyddwyr Cyffredin er enghraifft, Nottais, Panteg, Y Wig.

Dywedir mai'r Parch. Thomas Evans, Tomos Glyn Cothi (1764—1833), oedd y cyntaf i bregethu Undodiaeth o Ysgol Priestley a'r cyntaf i ddwyn yr enw Undodaidd i lenyddiaeth Cymru. Yn 1801—2 mae Eglwysi Aberteifi yn camu'n frasach a gwelir Arminiaeth ac Ariaeth yn datblygu. Erbyn canol y ganrif teimlid dylanwad Theodore Parker mewn rhai eglwysi, ac erbyn heddiw y mae holl eglwysi'r cyfundeb yn coleddu'r syniadau. Ni theimli'r Rhesymoliaeth cyn gryfed a chynt a'r nodyn "dynol" a "chyfriniol" fydd nodyn y dyfodol.

Ni roes Undodwr bwys erioed ar gredo. Gair Duw oedd y Beibl iddo a doe iddo i chwilio am feddwl Duw nid am resymau tros ei gredo. Ys dywed Dr. Gardiner, nid oedd Arminiaeth "but a habit of applying reason to questions of revelation," a chredaf fod Beirniadaeth Feiblaidd ddiweddar yn ei gytiawnhau. Cadwodd yn fyw yr athrawiaeth fawr a chysurlawn o Dadoldeb Duw (pan oedd yr enwadau eraill mewn perigl o golli golwg arni), y Fabolaeth Ddwyfol a Brawdoliaeth Dyn. Gwir na dderbyn y Drindod na'r Iawn Ddirprwyol ond pwysleisia "gymeriad" a "cherdded yn llwybrau Iesu." Ceisia gadw'n fyw yr elfen rhesymol, foesol a dynol yn y byd ysbrydol. Parcha farn bersonol a chais oleuo'r deall, ac esbonia hyn ei ymdrech o blaid addysg. Crefydd ymarferol yw ei grefydd, a chais ei dwyn i wasanaeth cymdeithasol a bywyd beunyddiol. Credaf y symia'r Deon Inge i fyny yn well nag y medraf i. Ni ddywedaf fod Undodiaeth wedi cyrraedd eisioes, ond yng ngalon ac yn nymuniad y gorau sydd yndd, y mae'n cyrchu at y nod :

> "*Protestantism has long been feeling its way towards a complete reconciliation with humanism and Science, a religion of personal conviction based on conscience, reason and spiritual communion with God.*"

Dyna fy nelfryd. Dyna yw Undodiaeth i mi.

T. Oswald Williams.

Llanbedr-pont-steffan.

(*O'r Efrydydd.*)

EIN DYLEDSWYDD AT YR IAITH GYMRAEG.

Nid cymeryd trugaredd arni yw dyledswydd neb at yr iaith Gymraeg. Y mae'n rhy hen, yn rhy urddasol ac yn rhy gref i hynny. Yr oedd hi yn iaith lenyddol pan nad oedd yr iaith Saesneg ond clebar barbaraidd. Bu ei gwahanol dafodiaithoedd yn lleferydd i obeithion ein tadau am fil o genedlaethau. Bu'n iaith lenyddol y tywysogion, fel y gallai Cymry tywysogaidd pob rhan ddeall eu gilydd. A phan gododd gwerin Cymru o'i hanwybodaeth a'i gwaseidd-dra, dechreuodd ail siarad Cymraeg llenyddol. Yr wyf fi er nad wyf gen hyned a rhai, yn cofio dau o dri chyfnod yn hanes diweddar yr iaith Gymraeg. Yn y cyfnod cyntaf siaradai pawb ei dafodiaith, ond nid oedd ond ychydig yn medru yr un iaith lenyddol i fod yn gyfrwng rhyngddynt a rhai'n siarad tafodiaith ereill. Yn yr ail gyfnod, siaradai pawb ei dafodiaith pan yn ei gartref, ond y cyfrwng rhwng rhai'n siarad tafodiaithoedd gwahanol fyddai'r iaith Saesneg. "Mae fy Nghymraeg i'n garpiog iawn," ebe gwr o

Ddyfed wrth wr o Wynedd, fel esgusawd dros droi i'r Saesneg. Y peth oedd yn feddwl, oedd fod iaith y Gwyneddwr yn garpiog anealladwy, ond ei fod yn hynaws ei ddull. Ac yn y trydydd cyfnod, yn ein dyddiau ni, pan gyferfydd Cymry o wahanol siroedd, siaradant a'u gilydd mewn Cymraeg llenyddol. Ychydig amser yn ol yr oeddwn yn digwydd dod i lawr dyffryn y Ddyfrdwy yn y tren. Ar orsaf Llangollen yr oedd geneth o forwyn yn ffarwelio a'i chwaer yn nhafodiaith y fro; ond, pan yn siarad a ni yn y tren, siaradai Gymraeg llenyddol. Felly yn union y gwneir yn Lloegr hefyd; sieryd gwr o Lancashire yn nhafodiaith ryfedd y sir honno ag un o'r wlad, ond sieryd Saesneg llyfr a rhywun dieithr.

Ein dyledswydd gyntaf at yr iaith Gymraeg yw ei siarad, a'i siarad fel iaith yr ydym yn hoff ac yn falch ohoni. Clywir ambell un yn siarad Saesneg a'i uwchafiad; ac yna'n troi at un is nag ef ac yn siarad Cymraeg anystwyth, ac o'i led anfodd, fel pe buasai arno ofn i'w seiniau ddifwyno ei Saesneg. Clywais Gymraeg yn dod o enau ambell un,—na fedr siarad yr un iaith arall yn rhigl fel pe bai'r geiriau'n gloffion, ac wedi colli eu gilydd; y mae'r dyn, druan, yn meddwl am y gair "Saesneg" o hyd. Y mae ambell un yr ydych yn disgwyl ei weled yn tynnu ei gadach poced i sychu ei wefus pan wedi gorfod siarad gair o Gymraeg, —rhag ofn i neb feddwl ei fod ef, ysywaeth, yn gynefin a chwmni rhai'n siarad yr iaith honno. Nid gwladgarwch yw'r gras y dylem weddio am i'r bodau hyn ei gael; nid ydynt yn barod iddo, rhaid iddynt gael sylfaen o synwyr i ddechreu. Y mae rhywbeth yn gariadlawn yn ffolineb y gwladgarwr, oherwydd, er ei ffoled, oni fedr aberthu? Ond am ffolineb gwrthwladgarwch, nid oes feddwl fedr ddyfeisio un daioni'n perthyn iddo, ac ni fedr calon dyn gonest deimlo tuag ato ond dirmyg. Diolch fod cymaint o Gymry'n siarad Cymraeg pa le bynnag yr ant fel iaith annwyl eu gwlad, ac fel iaith deilwng o le ymysg ieithodd goreu y byd.

Ein hail ddyledswydd at yr iaith Gymraeg yw parchu'r hwn a'i sieryd. Gwn am gadeirydd Cyngor Dosbarth, Cymro'n siarad Saesneg clapiog, ymddug at bob achod sieryd Gymraeg fel pe buasai'n was iddo; gwn am borter mawr ar y ffordd haiarn, Cymro wedi ei fagu yn y mynydd-oedd, na welir yn agos i faich ddaw o'r trydydd dosbarth, neu lle gofynir iddo ei gludo yn Gymraeg; gwn ——ond ni waeth i mi heb enwi'r enghreifftiau o ddirywiad y gorfod i mi fod yn eu plith. Bum yr haf diweddaf ar daith trwy rai o ardaloedd mwyaf mynyddig Gogledd Cymru. Mewn un lle yr oedd gwraig yn gwerthu photograffiau, — rhai gwael a rhad, a rhai da a drud. Daeth gwr a gofynnodd yn Gymraeg faint oedd pris y ddau oreu oedd ganddi, a dyweddod hithau mai gini. Tra'r oedd yn edrych arnynt daeth dau Sais ieuainc ar eu ceffylau heiyrn, a gofynasant ar draws y Cymro, mewn Saesneg a phob *h* o'i lle, faint oedd pris rhai o'r darluniau salaf. "Ceiniog a dimai'r un," ebe hithau. Ac ebai wrth y Cymro, — "Arhoswch am funud, nes y bydd y gwyr bonheddig yma wedi gorffen." Prynodd y "gwyr bonheddig" ddau ddarlun am dair ceiniog dan rwgnach y cawsent hwy ym Mirmingham am ddwy. Yna prynnodd y Cymro y ddau arall, talodd ei gini ac aeth yntau i'w ffordd. Ni theimlwn ddigter at y wraig; nid oedd hi, druan, ond dynes anwybodus. Ond onid oes mawr eisieu dadblygu synwyr cyffredin yn ein mysg, heb son am anwybodaeth meddwl? Os na pharchwn ein gilydd pa ddisgwyl sydd i eraill ein parchu?

Ca'r Gymraeg sen yn aml yn nhy ei chymwynaswyr pennaf. Yr anurdd mwyaf ar Gymru i mi yw gweled enw capel Cymraeg wedi ei ysgrifennu yn Saesneg. "Horeb, a Welsh Congregational Chapel;" "Ainon, a Welsh Baptist Chapel;" "Jerusalem, the meeting place of the Calvanistic Methodists;" oni cha'r gwladgarol ddolur llygad a briw calon gan y rhain lle bynnag y trydd? Ac onid oes eisiau dysgu yma?

A oes un gwesty trwy Gymru i gyd ac enw Cymraeg wrth ben ei ddrws? Gwelais enw fynnodd Ab Ithel roi uwchlaw ty tafarn ym Mawddwy, — "Gwesty'r Haul; — trwyddedwyd Rhisiart Rhys i werthu cwrw a phorter." Ond y mae hwnnw'n "Sun Inn" erbyn heddyw, er fod syched a iaith ym Mawddwy yr un.

Sawl siopwr yng Nghymru sydd a desgrifiad Cymraeg ar ei ddrws hefyd, i oleuo ei gwsmeriaid Cymreig uniaith?

Y GYMANFA GERDDOROL.

Cynhaliwyd Cymanfa Gerddorol unedig Ceredigion a Morgannwg, dydd Mawrthgwyn, Mehefin 2, yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin. Hon yw y drydedd waith i'r Gymanfa gael ei chynnal yng Nghaerfyrddin, am yn bennaf ei fod yn fan canol i gyfarfod Undodiaid Morgannwg a Cheredigion, ac efallai am y gwyddom erbyn hyn fod yno groeso gwresog yn ein haros. Bu'r hin yn dra ffafriol, ac ym marn rhai yn rhy ffafriol, am fod yr awydd i ymblesera yn yr awyr agored wedi bod yn brofedigaeth i lawer o'r cantorion erbyn cwrdd yr hwyr. Yr arweinydd oedd Mr. Gwilym R. Jones, Ammanford. Hon ydoedd y waith gyntaf i Mr. Jones gael ei ddewis yn arweinydd y Gymanfa hon. Gwnaeth ei waith yn rhagorol. Y mae eisioes wedi enill lle uchel fel arweinydd cerddorol. Os nad oedd y Gymanfa i fyny a rhai o gymanfaoedd y gorffennol, nid ar yr arweinydd yr oedd y bai. Da gennym ei fod wedi ei ddewis i arwain Cymanfa Ganu Ceredigion y flwyddyn nesaf eto.

Neillduwyd cwrdd y bore i'r plant, ac ar lawer ystyr hwn oedd y cwrdd goreu o'r gyfres. Cafwyd annerchiad ddyddorol gan Mrs. Cledlyn Davies, Cwrtnewydd, yr hwn sydd eisioes wedi ymddangos yn "Yr Ymofynydd." Hi ydoedd yn llywyddu yng nghwrdd y bore. Yn y prynhawn, llywyddwyd gan Dr. Thomas Evans, M.O.H., Abertawe. Yng nghwrs ei annerchiad, talodd warogaeth o barch a diolchgarwch i hen arweinyddion canu ein eglwysi yn Sir Aberteifi, y rhai lafuriasant yn galed yn nydd y pethau bychain. Yn yr hwyr, y Parch. J. Dyfnallt Owen, gweinidog Eglwys Heol Awst, oedd yn y gadair. Mewn annerchiad hapus iawn, dangosodd ef y cysylltiad fu rhwng Eglwys Heol Awst ac Undodiaid ar un adeg yn ei hanes. Gwahoddodd ni yno yn fuan iawn eto. Gwnaeth yr organydd, W. J. Williams, Ysw., Caerfyrddin, ei ran yntau yn ol ei arfer. Os ydym am i'r Gymanfa fod yn llwyddiant ac yn ddylanwad yn ein plith, carwn apelio at bawb o'n cantorion roddi ohonynt eu goreu iddi ar hyd y flwyddyn.

TITUS—Nid oedd gan Titus, Ymerawdwr Rhufain, ddim dymuniad o uwch na gwneuthur daioni i'w ddeiliaid. Un prynhawn, wrth gofio nad oedd efe y diwrnod hwnnw wedi cyflawni un weithred o wasanaeth i'w bobl, nac wedi rhoddi i neb un ffafr, llefodd allan wrth y rhai o amgylch iddo: "Fy nghyfeillion, yr wyf wedi colli diwrnod."

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd yng Nghapelyfadfa, ddyddiau Mawrth a Mercher, Gorffenaf 28 a 29. Cafwyd hin ddymunol, a bu hynny'n fantais i gael cynulliadau lluosog—credwn fod y cynulliadau dydd Mercher yn anarferol luosog. Daeth llu mawr o ffyddloniaid ynghyd, a chredwn fod pob un o honynt yn falch iddo ddod i'r lle. Beth fyddai hanes ein eglwysi onibai am y ffyddloniaid hyn? Mae rhai fel pe am amheu a ydyw cyfarfodydd arbennig fel yma yn werth eu cynnal. I mi, maent yn wir werth eu cynnal. Gwir, golygant draul a thrafferth i rywrai, ond credwn—a chredwn yn gryf iawn—eu bod yn fwy na llawn gwerth yr oll. Dichon fod yna ddigon o le a galw am welliantau yn ein dull o gynnal y gwyliau hyn, ond fel ag y maent credaf eu bod o fendith ac mai colled difrifol i'n heglwysi fuasai iddynt gael eu gosod o'r nailldu.

Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fawrth gan y Parch. Lewis Williams, a phregethwyd gan y Parchn. T. A. Thomas (yr hwn yn garedig iawn gymerodd le y Parch. E. R. Dennis, ar rybudd byr) a Dr. W. Griffiths, Aberystwyth.

Bore Mercher, am 9, cyfarfu'r Pwyllgor. Am 10.30, dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. D. Conwil Evans, ac yna traddododd y llywydd, y Parch. T. O. Williams, M.A., annerchiad ar "Ein Emynwyr a'n Hemynau." Pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch cynes iddo am ei annerchiad a'i wasanaeth fel llywydd yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf, ar gynygiad y Parch. D. Evans, Cribyn, yn cael ei eilio gan y Parch. J. Islan Jones, M.A., Hinckley. Apeliwyd at Mr. Williams ar iddo gyhoeddi'r annerchiad, naill ai yn bamphledyn neu yn "Yr Ymofynydd." Am 2 o'r gloch, dechreuwyd yr oedfa gan y Parch. T. O. Williams, M.A., a phregethwyd gan y Parchn. E. T. Evans, Bridgend, a D. G. Rees. Cawsom y pleser o gwmni Dr. S. H. Mellone, ysgrifennydd y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, yn y cyfarfodydd hwn— dyna ei ymweliad cyntaf a'r sir — a chyn gorffen gwasanaeth y prynhawn, estynodd y llywydd ar ran y Gymdeithas, a'r Parch. E. O. Jenkins ar ran cynulleidfa'r Bwlch, groesaw cynes iddo. Diolchodd Dr. Mellone am y derbyniad caredig oedd wedi gael, a thraddododd annerchiad amserol a hapus, yn yr hon yr apeliai yn daer am ffyddlondeb gyda chrefydd, ac am bobl ieuainc i gyflwyno eu hunain i'r weinidogaeth. Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan y Parch. D. Evans, Cribyn, a phregethwyd gan y Parchn. H. H. C. Jones, Caerdydd, a Lewis Williams.

Fel y dywedwyd, cafwyd cyrddau lluosog a llwyddianus, ac hyderwn yn fawr fod bendith i'w dilyn. Derbynied y gweinidogion ein diolchgarwch am eu gwasanaeth parod.

Da oedd gennym weled y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yn bresennol, a'i weled yn cadw mor dda o dan bwys y blynyddoedd. Teg yw i ni ddweyd mai angladd fu'n achos i gadw y Parch. E. R. Dennis rhag cyflawni ei addewid i bregethu nos Fawrth.

Gwnaeth cynulleidfa'r Bwlch, yn enwedig y boneddigesau, eu rhan yn ganmoladwy i dderbyn a chroesawu yr ymwelwyr.

Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Ellen Thomas, Greengrove, yn cael ei chynorthwyo gan Misses Mally a Sally Jones, o'r Llwyn.

PWYLLGOR BLYNYDDOL.

Cynhaliwyd yr uchod yng Nghapelyfadfa, bore Mercher, Gorffenaf 29, y llywydd, y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, yn y gadair. Wedi darllen a chadarnhau cofnodion Pwyllgor y Pasc, pasiwyd y penderfyniadau canlynol :—(1) Fod y priodoldeb o gynal gwasanaethau achlys-

urol yn Cwmmawrdu a Rhydyparc i gael ystyriaeth ym mhwyllgor yr Hydref; (2) Fod apel yn cael ei gwneud i'r Trysorydd am adroddiad o'r sefyllfa ariannol ym mhob Pwyllgor Blynyddol; (3) Fod grant o £5 i gael ei gwneud i Capelycwm, £5 i Pantteg, £1 1s. i'r Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, £1 1s. i'r National Conference, £20 i Drysorfa'r Llyfr Emynau, ac fod y tâl arferol o £12 i fynd i Olygydd "Yr Ymofynydd," (4) Ein bod yn derbyn ymddiswyddiad y Parch. D. Evans, Cribyn, fel ysgrifennydd Adran yr Ysgol Sul, ac yn cyflwyno diolchgarwch cynes iddo am y gwaith da a gyflawnodd tra yn y swydd; (5) Fod y Parch. D. Conwil Evans i gymeryd ei le fel ysgrifennydd yr adran honno; (6) Etholwyd y Parch. T. O. Williams, M.A., yn olygydd "Yr Ymofynydd," fel olynydd i'r Parch. T. A. Thomas, yr hwn sydd wedi ei olygu am y cyfnod maith o 25 mlynedd, a phasiwyd fod diolchgarwch gwresog y Gymdeithas yn cael ei gyflwyno i Mr. Thomas am wasanaeth mawr yn ystod y blynyddoedd hynny; (7) Tra'n datgan ein llawenydd am adroddiad ffafriol ynglyn a safle'r Llyfr Emynau newydd, ein bod yn apelio at Bwyllgor y Llyfr ar iddo ei ddwyn allan mor fuan ag sydd ddichonadwy; (8) Ein bod yn llawenhau o glywed fod yna un—feallai ddau—dyn ieuanc yng 'Ngheredigion a'i wyneb ar y weinidogaeth, a'n bod yn ymrwymo i roddi cynnorthwy ariannol sylweddol i'r cyfryw, ac fod pwyllgor i ystyried pa faint o gynorthwy a sut i gael yr arian ynghyd i gwrdd yng Nghapelybryn, am 5 o'r gloch, nawn Llun, Awst 10—y pwyllgor i gael ei wneud i fyny o'r oll o'r gweinidogion ac un cynrychiolydd o bob Eglwys; (9) Ein bod yn cefnogi'n wresog fwriad ein cyfeillion yn Rhydygwin a Chiliau i fynd allan i gasglu er dileu y ddyled sydd ar y ty maent wedi godi i'r gweinidog, a'r cyfeillion yng Nghaeronen gyda'r gwaith o adnewyddu eu Capel; (10) Ein bod yn gofyn i Eglwys yr Hen Dy Cwrdd, Aberdar, i dderbyn Cyfarfodydd yr Hydref; (11) Fod y swyddogion am y flwyddyn i fod fel y canlyn:— Llywydd—Parch. D. Conwil Evans; Is-lywydd—Mr. D. Jones, Dolgerdd, Talgarreg; Trysorydd — Mr. D. M. Jones, Gwyon Castle; Ysgrifennydd — Parch. E. O. Jenkins; Archwilwyr — Mri. T. Thomas a J. O. James, Llandysul.

GEIRIADUR BEIBLAIDD.

(Yn ymddangos yn rannau, 1/6 yr un. Cyhoeddwyr: Hughes a'i Fab, Wrecsam.)

Dywedir wrthym ar gloriau pob un o'r rhannau uchod mae hwn yw y gwaith pwysicaf ar y Beibl a gyhoeddwyd erioed yn Gymraeg, ac ar lawer golwg hawdd gennym gredu hynny. Gwyddis fod o leiaf dri o eiriaduron Beiblaidd pwysig wedi ymddangos yn y Gymraeg o flaen yr un presennol, sef yr eiddo Charles, Mathetes, a Hughes, a diamau iddynt yn eu dydd weddnewid cryn dipyn ar syniadaeth grefyddol ein gwlad. Afraid dweyd eu bod ill tri yn gorffwys yn gyfangwbl ar draddodiadau anfeirniadol Protestaniaith. Y mae yn dra gwahanol mewn perthynas a'r geiriadur newydd sydd yn ymddangos yn awr o ddwylaw aelodau yr adran ddiwinyddol o Urdd y Graddedigion Cymraeg. Bu yr hen rai er hynny yn foddion i lawer o bobl ein gwlad i ymgydnabyddu a llyfrau y Beibl a'u cynnwys; a rhwymau sydd arnom felly i deimlo'n ddiolchgar am danynt. Cof da gan yr ysgrifennydd am yr amser y cafodd

eiriadur Charles yn ei law am y tro cyntaf pan tua deuddeg oed, ac am y pleser o droi a cheisio deall ei dudalennau. Bydd llawer Cymro nad yw heddiw ond plentyn yn cofio gyda hyfrydwch cyffelyb am yr adeg yr agorodd yntau gyntaf y geiriadur Beiblaidd sydd yn ymddangos yn awr o wasg Hughes a'i Fab.

Tra gwahanol yw y syniad am y Beibl a geir fel ffrwyth meddwl ein graddedigion i'r hyn ellir ei ddarllen yn yr hen eiriaduron. Bellach y mae y drychfeddwl am dano fel llyfr wedi disgyn o'r nef wedi llwyr gilio i'r cysgod, ac yn ei le teyrnasa un arall, sef mae llyfrfa ac nid llyfr yw y Beibl, ac y gwneir ef i fyny o bigion o ffrwyth lenyddol yr ysbryd crefyddol fel yr ymddangosodd yr ysbryd hwnnw yn mysg yr Iddewon a'r Cristioniogion boreol. Adlewyrchir er hynny fesurau helaeth o ysbryd Beibladdoliaeth yma a thraw ar dudalennau y llyfr newydd. Gresyn hynny. Dywedir ambell waith na fu i'r fath beth ag ysgol ddiwinyddol ymddangos erioed, a chyfaddefir yn gyffredin bod yr un peth yn wir am gerddoriaeth a chelf yn gyffredinol felly. Gwelir yn hawdd oddiwrth y geiriadur newydd nad oes ysgol Ddiwinyddol Gymraeg newydd yn gwneud ei hymddangosiad y tro hwn chwaith. Meddyliau hen ysgolion, y rhan fwyaf o honynt o Gyfandir Ewrop, a adlewyrchir ar y tudalennau newydd. Nid ydynt yn llai gwerthfawr a derbyniol o herwydd hynny. Y gwir yw fod llai o le i ysgolion cenedlaethol nag erioed o'r blaen. Y mae ysbryd gwyddor yn prysur wneud y fath beth yn anmhosibl. Pwy fuasai yn meddwl am ysgol genedlaethol fferyllaeth neu fywydeg ?

Ameuthyn i Gymro sydd wedi byw ar hyd y blynyddoedd yn awyrgylch uwchfeirniadaeth yw yr ymdrech newydd hon i ddeall y Beibl, a moddion gwenu lawer pryd, nid heb gryn fesur o gydymdeimlad, a ga uwch ben rhai o'r erthyglau sydd eisioes wedi eu cyhoeddu. Gwelir ynddynt ffrwyth efrydiaeth ddwfn ac addfed, er bod yr ysbryd ceidwadol yn eistedd yn drwm ar ysgwyddau mwy nag un o'r awduron sydd yn traethu ar eiriau a phynciau pwysig. Gwelir hefyd feddwl yn ymgeisio am ryddid yn hytrach na meddwl wedi ei gwbl ryddhau yn ymgodymu a phwerau traddodiad, ac ar y cyfan yn cael y goreu arnynt ; ar brydiau eraill yn gorffen yr ymladdfa trwy gyfiawnhau a bendithio y gelyn. Anhawdd cofio bob amser ddarfod gwneud traddodiad er mwyn dyn ac nid dyn er mwyn traddodiad. Ar y cyfan gellir dweyd bod yr uwchfeirniad wedi llwyr ennill y frwydr cyn belled ag yr a materion a godant o'r Hen Destament. Ceir eglureb dda o hyn yn ysgrif ardderchog y Parch. John Morgan Jones, Merthyr ar lyfr Eseia. Cydnabyddir a chyfiawnheir y syniad y dylid rhannu y llyfr hwnnw i ddwy brif ran o leiaf, ac, yn mhellach fod llawer adnod a pharagraff wedi llithro i mewn yn llechwraidd i'r ddwy ran hynny na pherthynent iddynt yn wreiddiol. Cyfaddefir hefyd bod y testyn yn fynych yn llygredig ac annealladwy. Llyfrfa ac nid llyfr ydyw Eseia bellach, a bendith ydyw cael clywed hyn yn Gymraeg ac oddiwrth bregethwr Methodist. Sylwn yn mhellach ddarfod i'r hen dyb am gyfeiriadau y prophwyd hwnnw at berson a gwaith Iesu gael ei llwyr anwybyddu gan yr awdur. Beth ddywed y Synod a'r Cwrdd Misol am hyn tybed ?

Ysbryd ceidwadol ar y cyfan adlewyrchir ar bob erthygl ymron ac yn enwedig pan y traethir ar bynciau a godant o'r Testament Newydd. Y mae hyn yn hollol fel yr oeddym wedi disgwyl. Gwir y sonir yn yr erthygl ar yr Efengylau Synoptaidd am ddibyniaeth Matthew a Luc ar Farc, ac am "Q" fel prif darddell yr adrannau o Fatthew a Luc nas ceir hwy ar dudalennau Marc. Sonir hefyd am y Loggia y dywedir i Fatthew eu hysgrifennu, a chyfaddefir mae ysgrifau tueddiadol i raddau helaeth iawn yw y tair efengyl. Ysgrifennwyd Matthew, er engraifft, i geisio profi, goruwch pob peth arall,mae Messia addawedig yr Hen Destament oedd Iesu, a bod llyfrau y proffwydi yn

llawn cyfeiriadau cywrain a diwad ato. "Darfu i Foses a'r proffwydi ddweyd am dano cyn ei ddod" chwedl yr hen emyn. Gwyr pawb wyr ddim am y Beibl fod y cyfaddefiadau pwysig hyn yn tynnu seiliau uniongredaeth yn ddarnau truenus mewn modd nag a wnaethpwyd erioed o'r blaen yng Nghynru. Hawdd gennym gredu yr hyn a glywn, sef bod y saint y disgwylid iddynt brynu y cyhoeddiad newydd naill ai yn ei anwybyddu neu mewn gwrthryfel noeth yn ei erbyn. Clywsom hefyd am un pregethwr enwog yn cwyno yn gyhoeddus mewn cynhadledd y dydd o'r blaen y buasai yn rhaid iddo ef losgi ei bregeth fawr ar destyn neullduol yn Genesis os derbynid syniad yr uwchfeirniaid am y llyfr hwnw. Dywedir ym mhellach bod nifer o'i gydbregethwyr wedi arwyddocau eu cydsyniad ag ef trwy bleidleisio yn erbyn y ddysgeidiaeth newydd. Mor anhawdd yr a y rhai y mae golud traddodiad ganddynt i fewn i deyrnas rhyddid! Ofnwn y bydd yn rhaid llosgi pregethau aneirif ar ol ymddangosiad cyflawn y geiriadur newydd; ac os gwelir tarth a mwg yn codi o gyfeiriadau rhai dinasoedd bydded hysbys i'r darllenydd fod y tan pregethwrol wedi ei gynneu. Ceir engraifft o wendid yr ysprydol beirniadol yn yr erthygl ar Enedigaeth Iesu. Wedi troi a throsi, dyfal chwilio a dychmygu, cydmaru a gwrthgyferbynu, rhoi'r bai ar Fair druan am y ddwy chwedl geir ar ddechreu Matthew a Luc, a chymeryd yn hanner ganiataol fod y darlleniad cyffredin o Ioan1 : 13 yn anghywir er ceisio profi bod awdur y bedwaredd efengyl yntau hefyd yn credu ddarfod geni Iesu o wyryf; wedi son am a phwysleisio dirgelwch genedigaeth Iesu, fel pe buasai pob genedigaeth arall yn hollol syml a dealladwy, rhyddha yr awdur ei yspryd blinedig drwy ychwanegu na raid i neb gredu yn yr enedigaeth wyrthiol er dal at "y ffydd yn yr ymgnawdoliad!" Fel pe buasai credu yr athrawiaeth olaf yn llai o orchest mewn ofergoeledd na chredu'r cyntaf. Ac fel pe buasai a fyno ffydd mewn unrhyw fodd a darn o hen chwedloniaeth athronyddol o awyrgylch Helenistiaeth. Sylwn na chyfeiria yr awdur hwn at lyfrau ar y pwnc, megys yr eiddo Paul Lobstein, fel moddion myfyrdod pellach i'r darllenydd. Paham, tybed? Beiddiwn ddweyd y bydd yn rhaid parotoi ysgrif newydd ar enedigaeth Iesu ar gyfer yr ail argraffiad o'r geiriadur os am gwrdd a gofynion yr amserau. Gwasaneth fuasai cyfeirio at yr hanesion am yr enedigaeth a geir yn yr efengylau apocryffaidd. Gresyn y rhaid edrych tu allan i'r geiriadur newydd am hynny. Cymerer enghraifft arall sydd yn ddangoseg o wendid: yr ysgrif ar Esgobaeth. Hawdd deall mae anghydffurfiwr yn hytrach nac ysgolor yw ei hawdur. Ni ddywedwn nad yw yn gywir yn ei osodiadau. Ymddangosant er hynny mewn ffurfiau sydd yn awgrmyu mae ymddiheiriwr ac nid archwiliwr sydd yn gyfrifol am danynt.

Diolchwn i'r Athro John Morgan Jones, Bangor am ei ddwy ysgrif ar Adenedigaeth a Helenistiaeth, er ein bod yn mhell o allu derbyn llawer o'r hyn ddywed wrthym am y cyfrin grefyddau Groegaidd. Nid ydym yn barod i gredu eu bod mor amddifad o sylwedd ysprydol ag y myn yr athro; nac ychwaith ei bod yn deg i wrthgyferbynu eu hystyr *arwynebol* a chynnwys profiad ysprydol yr Apostol Paul fel y deallir y profiad hwnnw *ar ol ei ryddhau o rwymau iaith yr Apostol.* Gwir fod Paul yn dadblygu ei fywyd ysprydol ei hunan mewn annibyniaeth ar swyngyfaredd ffurfiau, ond nid teg anwybyddu y ffaith bwysig fod Cristionogion yn ei ymyl yn byw ar ffurfiolaeth fel mwyafrif dilynwyr y cyfringrefyddau. Ai nid oedd yn mysg yr olaf hefyd arweinydd yma ac acw a welsai yn mhell y tu hwnt i ffurfiolaeth gynefin ei grefydd? Y mae profiad bob amser yn blaenredeg ac nid yn dilyn syniadaeth, a'r peth diweddaf a ddaw i fodolaeth yw mynegiad o'r syniadaeth mewn iaith. Pob peth yn ei dro. Begio'r ateb yw casglu fod cyfriniaeth y grefydd newydd wedi goresgyn cyfriniaeth yr hen am ei bod yn fwy sylweddol o ran ei chynnwys. Nid sylwedd ond

gallu i gyfaddasu ei hunan at ofynion yr oes sydd yn cyfrif am ledaeniad boreol a buan Cristionogaeth. Nid arwydd dda iddi lwyddo mor fore ag y gwnaeth. Gwyddom nad oedd yr Apostol Paul ond prin wedi ymddatod a bod gyda Christ cyn yr ymddangosodd ffurfiolaeth noeth, a chableddus mewn llawer ystyr, i reoli'r glwyd yn mysg Cristionogion hefyd. Cred yr ysgrifennydd i gyfrin grefyddau Helas gyfrannu cryn dipyn yn fwy at gynnwys Cristionogaeth Baulenaidd ac Ioanaidd nag a gyfaddefir gan awdwr yr ysgrif ar Adenedigaeth, cred yn mhellach mae cyfoethogi ac nid tylodi Cristionogaeth a wneuthpwyd trwy hynny. Nid cyfriniaeth uchel iawn ellid ddisgwyl oddiwrth y breuddwyd ofer fod diwedd y byd ar ddod. Cyn belled ag y gwyddom ni fu cyfrin grefyddau Groeg yn euog o freuddwydio felly. Yn wir eu cyfriniaeth hwy a welir yn cymeryd lle y breuddwyd hwnnw yn ysgrifau diweddaraf y Testament Newydd. Ymddengys ar lawer cyfrif nag oedd y corff ysprydol y sonir am dano yn mhenod y claddu mor bell ag y tybir o ran ei natur oddiwrth yr "ymddihatru oddiwrth rhwymau o fater a'i melldith" yr edrychai dilynwyr y crefyddau cyfrin ato fel coron bywyd. Yr un yw "cnawd" yr epistol at y Rhufeiniaid a "mater" y Platoniaid newydd i bob pwrpas. Nid yw meddyleg hanesyddol wedi dweyd ei gair diweddaf ar y cwestiwn pwysig hwn eto. Yn wir nid yw yr ymchwil ond megys wedi dechreu.

Pe bai gofod yn caniatau gallem a charem gyfeirio at ysgrifau ereill sydd yn rhoddi i ni foddlonrwydd nid bychan. Gwnant hynny am ein bod wedi ein parotoi i sylweddoli eu hawgrymiadau yn fwy na'u gosodiadau pendant. Amheuwn a yw y lleygwr cyffredin mewn ffordd i wneud hynny, ac oherwydd hynny ofnwn na chyrhaedda y geiriadur ei bwrpas. Teimlwn yn wir ddiolchgar i'r graddedigion hyn am eu hymdrechion i oleuo'r byd Cymraeg.

Yr oedd yn rhaid dechreu rywbryd a rhywle yn Nghymru, a dyma hynny wedi ei wneud bellach.

Gwelwn Fethodistiaid, Fedyddwyr Annibynwyr, Wesleaid, ac Undodwyr yn cyfrannu eu tameidiau. Hwyr ach y ceir rhywbeth oddiwrth y graddedigion hyn ar linellau Esboniad Un-gyfrol Dr. Peake ar y Beibl fel ail ymdrech. Teimlo yn ddiolchgar yr ydym am yr hyn sydd yn digwydd yn ein dydd yn mysg uniongredwyr ein gwlad, ac eto ar ol darllen llawer un o'r erthyglau hyn diolchwn yn gynesach fyth am gomin rhydd, iach, helaeth Undodiaith, chwedl un pregethwr uniongredol pybyr groesodd flynyddoedd i wlad y goleuni mwy, i bori arnynt. Gwyddom i sicrwydd bellach i ba gyfeiriad y mae y gwynt yn chwythu, a gwelwn y dydd yn dod pan y bydd hen chwedlau fel yr un am yr ymgnawdoliad wedi eu gosod yn yr amgueddfa ochr yn ochr a'r rhai am y creu mewn chwe' diwrnod, Iona a'r morfil, a chyffelyb dybiaethau. Y mae yn ffasiynol i siarad am yr Ymgnawdoliad fel ffaith ganol y grefydd Gristionogol ar hyn o bryd. O flaen yr athrawiaeth fawr am fewnfodaeth Duw y mae yr un arall am ymgnawdoliad Duw ym mherson Iddew ieuanc nas gwyddom ond y peth nesaf i ddim am dano yn agos i ddwy fil o flynyddoedd yn ol, nid wedi ei chadarnhau fel y tybir ac yr honir ond wedi ei diwreiddio a'i dileu am byth. Cof da gennym am y diweddar Ddeon Rashdall, un o arweinwyr "Modernism" yn ceisio amddiffyn y gred ac nis gwyddom am ddim a fu o gymaint gwasanaeth i'w lladd ag ysgrifau ac areithiau y gwr galluog hwnnw. Ceir gweled yn y rhifyn diweddaf o'r geiriadur newydd efallau beth yw y syniad swyddogol yn mysg y graddedigion Cymraeg ar y mater pwysig hwn. Diolchwn eto am y Geiriadur, ond teimlwn nad yw yr amser wedi dod yng Nghymru y gellir gwneud heb yr Encyclopædia Biblica—nid ei gasgliadau a'i benderfyniadau, yn gymaint a'i ysprydrhydd, beiddgar, a diofn, o geisio deall y Beibl.

T. Eric Davies.

Crfn-Coed.

PRIODASAU.

Mehefin 27, ym Mwlchyfadfa gan y Parch. E. O. Jenkins ac o flaen Mr. J. M. Howell, y cofrestrydd Mr. Evan Davies, Frondes, Pontshaen, Llandyssul a Miss Mally Lewis, Glanrafon Arms, Talgarreg. Hir oes a phob llwyddiant iddynt.

Mehefin 20, yng Nghapel Rhydygwin, gan y Parch. D. Conwil Evans, a cherbron Cofrestrydd J. M. Howel, (Henadur), Aberaeron, Mr. Hugh Rowlands, mab Mr. a Mrs. John Rowlands, Well Street, Tregaron a Miss Rachel Anne Evans, ail ferch Mr. a Mrs. Daniel Evans, Ystrad House, Llanfihangel Ystrad. Pob llwyddiant a dedwyddwch a'u dilyno.

MARWGOFION.

Mehefin 13, Jane Davies, Plasbach, gynt o'r Felin, Felinfach, yn 73 oed, ar ol cystudd cymharol fyr yn ol ei dymuniad, ond caled. Cafodd i weini arni yn dyner a gofalus yn nyddiau olaf ei bywyd ei nhith, Miss Anne Evans, gynt o Dregaron. Yr oedd Jane yn un o gymeriadau nodedig Dyffryn Aeron, wedi ei dwyn i fyny, ac wedi byw ynddo trwy ei hoes. Gwraig siriol a hawddgar, yn meddu ar galon garedig, ysbryd annibynol, a meddwl ffraeth, a phob amser yn dweyd fel y meddyliau. Pan oedd canu corawl mewn bri yn y dyffryn, yr oedd yn un o r goreuon a'r ffyddlonaf yn y Cor, yn meddu ar lais cyfoethog ac addfed. Bu yn aelod ffyddlon yn Rhydygwin trwy oes faith. Rhoddodd ei goreu yng nghaniadaeth y cysegr, a gwasanaeth fel ag oedd Duw wedi eu bendithio ei gallu yn ei ffordd seml hi i wneud, a hir y gwelir ei lle yn wag yn y Capel ac yn yr ardal. Dydd Mawrth canlynol, rhoddwyd ei gweddillion i orffwys yn mynwent Rhydygwin gyda'i hannwyl briod Daniel y Felin, yr hwn a'i rhagflaenodd tua deg mlynedd yn ol. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion D. Evans, Cribyn, L. Williams, Alltyblacca a Wm. Phillips, Tynygwndwn. Gadawodd frawd a dwy chwaer a lluaws o berthynasau mewn galar. Nodded y Nef fyddo arnynt, yn arbenig ar y brawd a'r ddwy chwaer y rhai sydd eisioes wedi cyrraedd mewn blynydd au, hir ddyddiau, a mwy na'r addewid.

Mehefin 30, yn 32 mlwydd oed, Mr. Charles Smith, Yetgoch, ger Pantdefaid, a chyn hynny o Darrenfach a Phenbryn. Cafodd yr ymadawedig ei gystuddio'n hir a chaled. Yr oedd yn weithiwr diwyd ac yn gymeriad diniwed ac iddo air da gan bawb a'i hadwaenai. Gadawodd mewn galar mawr o'i golli weddw a dau o blant ieuainc. Tad yr amddifaid a Barnwr y weddw fyddo'n agos atynt. Y dydd Sadwrn dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol ohono ym mynwent Pantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins.

Mehefin 30, yn 69 mlwydd oed, Martha Jones modryb Miss Eleanor Jones, Tanllan, Llanwnen, a chwaer i Mr. David Jones, Tydwgi, Llan-

wnen. Yn Tanllan, Llanwnen, yr oedd ei chartref, ond yr oedd er's un mlynedd ar bymtheg ar hugain wedi bod ar wasanaeth fel ty-geidwes yn Dowlais, ac yno y bu farw. Gwanaidd oedd ei hiechyd; dioddefai oddiwrth ddolur y galon, a dyna fu achos ei marwolaeth. Bu yn aelod ffyddlon o'r eglwys Undodaidd yn Dowlais, hyd y bu iddynt roddi i fyny i gynal gwasanaethau yno. Wedi hynny bu yn addoli gyda'r Annibynwyr yn Bryn Seion. Arweiniodd fywyd tawel a didrwst. Mynwesai gariad tuag at bawb, a dymunai ddaioni i bawb. Parai hynny fod gan bawb barch iddi hithau. Cyflwynwyd gwasanaeth grefyddol yn y ty yn Dowlais ar ddydd ei hangladd gan y Parch. Mr. Jones, gweinidog eglwys Bryn Seion. Dygwyd ei chorff i fynwent eglwys Alltyblacca. Daeth nifer luosog yng nghyd yn Alltyblacca. Pregethwyd yno gan gan y Parch. L. Williams, a gorffenwyd y gawsanaeth wrth y bedd gan y Parch. D. Evans, Capelygroes. Gadawodd dri brawd a neiaint a nithoedd mewn galar ar ei hol.

GORFFENAF 20, yn 20 mis oed, David William, baban i Job ac Eleanor Morgan (merch Mr. a Mrs. Jones, Stafell, Llandyssul) 20, Front Row, Onllwyn. Bu'r bychan farw ar ol tri niwrnod o gystudd caled. Claddwyd y dydd Iau canlynol ym mynwent Pantdefaid pryd y daeth nifer luosog o gyfeillion o'r Onllwyn i lawr bob cam er dangos eu cydymdeimlad a'r rhieni ieuanc. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. "Gwywa y gwelltyn; syrth y blodeuyn."

MANION AC HANESION.

APWYNTIAD.—Llawen gennym nodi apwyntiad Mr. David Howell Davies yn "Head Postmaster" mewn lle mor bwysig a phoblog a Phontypridd. Bu Mr. Davies yn "Head Postmaster" yn Sheerness-on-Sea am beth amser, a chafodd y dyrchafiad yma i Bontypridd mis Mehefin diweddaf. Brodor yw Mr. Davies o Ddyffryn Aeron—mab y Post Office, Felinfach—ac wedi ei ddwyn i fyny ym more ei oes yn Rhydygwin, a hapus iawn yw meddwl nad yw yn anghofio hyn bob tro y tal ymweliad a bro ei enedigaeth. Ar y dyrchafiad pwysig yma, llongyferchir ef gan gyfeillion pell ac agos, yn arbennig gan gyfoedion ei hen ardal. Dymunwn iddo bob rhwyddineb yn y dyfodol i ddringo eto yn uwch, nes cyrraedd pen yr ysgol.

ALLTYBLACA. — Aeth aelodau Ysgol Sul y lle hwn ar daith mewn "charabancs" i Llanelli, Gorffenaf 18. Yr oedd y ffordd yno, a'r lle, yn ddieithr i'r oll bron, a pharai hyny i bawb fwynhau eu hunain yn fawr.

CAPELYFADFA.—Yr oedd dydd Mercher, Gorffenaf 1, yn ddiwrnod pwysig yn y lle hwn, oblegid ar y dydd hwnnw agorwyd y Neuadd newydd ag y mae'r gynulleidfa wedi adeiladu ar gyfer cynnal Ysgol Sul, a chynhaliwyd "Sale of Work" lwyddiannus. Yr oedd yr hin yn hafaidd ryfeddol, a bu hynny'n achos i gadw llawer rhag dod, am eu bod yn brysur wrth y gwair; er hynny, daeth tyrfa luosog i'r lle, a chafwyd prynhawn hapus a llawen. Yr oedd y gynulleidfa wedi trefnu i Mrs. Jones, Gellifaharen — un o'r mamau yn Israel—i agor y Neuadd, ond er siomedigaeth i lawer methodd Mrs. Jones a bod yno oherwydd afiechyd. Da gennym gael ar ddeall ei bod ar wellhad. Cymerwyd ei lle

gan Mr. T. Thomas, Spring Gardens, Llandysul, yr hwn a draddododd anerchiad buddiol ac amserol iawn. Dilynwyd ef gan y Parchn. T. A. Thomas, Lewis Williams, E. M. Davies, ficer Llandysul, ac E. O. Jenkins. Y rhan yna o'r gwaith drosodd, agorwyd y "Sale of Work" gan Mrs. Jones, Jeweller, Llandysul, gydag anerchiad rhyfeddol o darawiadol a hapus — yn wir, clywsom lawer o ganmol ar y dull yr aeth drwy ei gwaith. Talwyd diolch cynes i'r cyfeillion uchod ac i bawb, am eu cynorthwy, ar ran y gynulleidfa, gan Mr. T. G. Thomas. Yr oedd yn llawenydd gan gynulleidfa'r Bwlch i weld gweddw a phlant ei hen weinidog—y diweddar Barch. William James, B.A. — a Miss M. E. Marles-Thomas—merch yr anfarwol Gwilym Marles—ymhlith y dorf ar yr achlysur. Diolch cynes i bawb.

LLANDYSUL.—Ymwelodd Ysgolion Sul yr holl eglwysi yn Llandysul ag Abertawe, dydd Mercher, y 29ain o Orffennaf. Cafwyd tren arbennig at ein gwasanaeth, ac ymunodd llu mawr a'r bleserdaith. Treuliwyd diwrnod wrth ein bodd.

Y GRAIG A GELLIONEN.——Sul, Mai 17, trwy ofal yr arolygwr, Mr. Hopkin Jones, cynhaliwyd Cyfarfodydd Chwarterol yr Ysgol Sul, yn y Graig, Trebanos, nawn a hwyr. Rhowd cyfle'r nawn, gan mwyaf, i'r plant lleiaf, a gwnaethant yn rhagorol. Llywyddwyd gan Banos. Cyfeiliwyd gan Mri. H. H. Morgan a W. J. Bowen. Eto'r hwyr, yn yr un lle, a'r Parch. D. G. Rees yn llywyddu, awd drwy raglen arall, o safon uwch, i foddhad y gwyddfodolion. Cyfeiliwyd yr hwyr gan Mr. Isaac E. Hopkin, yr hwn hefyd a roddodd i ni ddetholiadau ar yr Organ.——Hefyd, y Llungwyn, ar fynydd Gellionen, rhoddwyd yn rhydd ac yn rhad, o drysorfa Ysgol Sul y lle, wledd o De a Bara Brith, melusion, a ffrwythau, i ddeiliaid yr Ysgol Sul. Daeth tyrfa fawr, na fynasai neb eu rhifo, i fwynhau o'r paratoadau. Cawd amryw fath ar chwareuon hefyd, nes, rhwng y cyfan, ni a gawsom amser perffaith. Mrs. Jones, The Dairy, Pontardawe, ofalodd am y bwyd, a Mr. John W. Bowen, ysgrifennydd yr Ysgol Sul, fu'n gyfrifol am y trefniadau parthed yr wyl. Diolch i bawb fu'n gwasanaethu.——Pleser calon gennym yw llongyfarch, drwy gyfrwng "Yr Ymofynydd," y cyfaill ieuanc, Mr. Rees Ogwen Jones, Tynypant, Trebanos, ar ei waith yn graddio yn B.Sc. mewn Daeareg, gydag anrhydedd.

Y CYMRY IAWN.

CAR y Cymry lan ymgomwest
(Iddynt nid oes blas ar loddest) ;
Carant ddwr, a charant ddirwest—
Dyna'r Cymry iawn.

Carant awr fin hwyr i ddarllen ;
Carant gerdd, boed brudd neu lawen;
Carant tlysion flodau'r awen—
Dyna'r Cymry iawn.

Hoffi mwyniant pen mynyddoedd ;
Hoffi hwyliau cymanfaoedd ;
Hoffi'r ddae'r wrth garu'r nefoedd—
Dyna'r Cymry iawn.

(O "*Drysau Eraill*" R. H. JONES.)

BLODAU'R EITHIN.

(Buddugol yn Eisteddfod Corwen, 1925.)

MWYNDER Mai uwch mawndir mwyn
—a'i olud
Yn hulio eithinllwyn ;
Rhyfeddod yr haf addwyn
Rhydyllu aur hyd y llwyn.

Birkenhead. R. HUGHES.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1,830 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; The London City and Midland Executor and Trustee Co. Ltd.